Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad er Budd y Cyhoedd: Methiannau o ran trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu a cholledion a ysgwyddwyd – Cyngor Cymuned Harlech

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3875A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi..We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad di-oed hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a arweiniodd yn uniongyrchol at golled o £9,000 i'r Cyngor ac i godi ymwybyddiaeth o risg o dwyll mewn cynghorau lleol.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion a'r camau nesaf 6

Adroddiad manwl

Arweiniodd methiant i ddilyn y broses briodol a herio’n briodol gais am daliad at golled o £9,000 i'r Cyngor. 9

Mae cofnodion y Cyngor yn cyflwyno darlun anghywir o ddigwyddiadau yn ymwneud â cholli £9,000 13

Nid yw gwefan y Cyngor yn cael ei chynnal yn briodol ac mae'n cuddio gwybodaeth berthnasol 14

Atodiadau

Atodiad 1 – Anfonebau twyllodrus 16

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Gan weithredu dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), rhaid i mi ystyried a ddylwn i gyflwyno adroddiad er budd y cyhoedd ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod fy archwiliad, er mwyn iddo gael ei ystyried gan Gyngor Cymuned Harlech neu gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.

2 Nododd fy archwiliad fod methiannau difrifol mewn trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol gan y Cyngor wedi arwain yn uniongyrchol at golled o £9,000 i'r Cyngor ac roedd modd osgoi'r golled hon. Rwy'n ystyried ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor ac, felly, rwyf wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn er budd y cyhoedd i egluro'r methiannau hyn a chodi ymwybyddiaeth o'r risg o dwyll. Rwyf wedi cyhoeddi adroddiad di-oed gan fy mod o'r farn y byddai oedi yn tanseilio'r nodau hyn.

3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'r twyll a'm hargymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwelliannau i'w reolaethau mewnol.

4 Ar ben hynny, er bod fy nghanfyddiadau archwilio yn ymwneud yn benodol â'r Cyngor hwn, mae gwersi pwysig i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor, ond gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

### Cyngor Cymuned Harlech

5 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu tref a chymuned Harlech yng Ngwynedd. Mae gan y Cyngor ddeuddeg cynghorydd sydd â chyfrifoldeb ar y cyd am reoli'r arian a godir gan y Cyngor.

6 Mae'r Cyngor yn gwario tua £100,000 y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau lleol. Mae'r Cyngor yn ariannu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn yn bennaf drwy gyfrwng praesept o £70,000 a gyflwynir i Gyngor Sir Gwynedd. Mae'r praesept hwn yn cael ei ariannu o daliadau treth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Yn ogystal â'r praesept, mae'r Cyngor yn derbyn ffioedd am wasanaethau claddu, cyfraniadau o ffioedd meysydd parcio a godir gan Gyngor Sir Gwynedd, TAW wedi'i hadhawlio ar bryniannau a wnaed ac arian grant achlysurol.

7 Mae aelodau'r Cyngor yn cael eu hethol gan drigolion lleol, ac mae'r Cyngor, felly, yn atebol i'r etholwyr lleol.

8 Mae cynghorau cymuned fel Harlech, oherwydd eu natur leol fach iawn, fel arfer yn dibynnu ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Fel sy'n digwydd yn aml, penodir Clerc Cyngor Cymuned Harlech (Mrs Annwen Hughes) hefyd yn Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC). Mae'r SCC yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn benodol, mae swyddogaeth y clerc/SCC yn cynnwys paratoi a chynnal cofnodion y Cyngor e.e. cofnodion cyfarfodydd a'i wefan, gwneud taliadau i gyflenwyr, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

9 Er bod swyddogaeth y Clerc/SCC yn bodoli, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)), cyfrifoldeb y Cyngor (hynny yw yr aelodau) yw gwarchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys dros drefniadau ar gyfer gwneud taliadau i gyflenwyr a sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolaethau mewnol hynny.

## Fy ngwaith archwilio

10 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ddatganiad blynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

11 Ym mis Gorffennaf 2023, tynnwyd fy sylw at adroddiad bod y Cyngor wedi dioddef twyll a arweiniodd at golled o £9,000. Felly, ehangais gwmpas fy archwiliad i archwilio'r amgylchiadau a arweiniodd at y golled hon.

# Canfyddiadau allweddol

12 Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaeth y Clerc ddau daliad o £4,500 (cyfanswm o £9,000) i drydydd parti heb awdurdodiad priodol gan y Cyngor. Gwnaed y taliadau yn dilyn cyfnewid negeseuon e-bost rhwng y Clerc a thrydydd parti a oedd yn honni mai ef oedd is-gadeirydd y Cyngor.

13 Mae'r cyfnewidiau negeseuon e-bost yn dangos bod y Clerc wedi methu â chwestiynu'r cyfarwyddiadau i wneud y ddau daliad yn briodol. Yn fy marn i, mae'r methiant i arfer diwydrwydd priodol wrth wneud y taliadau hyn yn dangos nad oedd gan y Cyngor reolaethau mewnol effeithiol ar waith. Mae'r ffaith y cyflawnwyd y twyll mewn modd rhwydd yn awgrymu efallai nad yw’r arfer o wneud taliadau heb graffu priodol yn ddigwyddiad unigryw.

14 Er bod y golled wedi ei hadrodd i'r Cyngor, yn fy marn i, nid yw amgylchiadau'r twyll wedi'u cofnodi'n briodol yng nghofnodion y Cyngor.

15 Gwaethygir y methiant i adrodd am y twyll yn iawn gan fethiant y Cyngor i gynnal ei wefan yn iawn mewn modd clir a chydlynol.

16 Nodaf fod y Cyngor eisoes wedi cymryd rhai camau i fynd i'r afael â'r diffygion yn ei drefniadau.

17 Bydd yn trafod ei Reolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau yn y broses o gymeradwyo, prosesu ac awdurdodi taliadau ar-lein. Yn benodol, dylai'r Cyngor sicrhau bod dau unigolyn yn ymwneud â phrosesu'r taliad: byddai un unigolyn yn prosesu'r taliad, a byddai'r unigolyn arall yn cymeradwyo'r taliad.

# Argymhellion a'r camau nesaf

Rwy'n gwneud pum argymhelliad i gynorthwyo'r Cyngor i wella ei drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer gwneud taliadau er mwyn sicrhau bod pob taliad yn destun proses awdurdodi briodol. |
| A2 | Dylai'r Cyngor adolygu taliadau mwy a wnaed dros y 12 mis diwethaf i weld a oedd y digwyddiad hwn yn ddigwyddiad unigryw neu'n ddigwyddiad rheolaidd |
| A3 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei gofnodion yn destun gwaith craffu priodol cyn cael eu cymeradwyo i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyson â'r materion a adroddwyd ac a drafodwyd yn y cyfarfod |
| A4 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei wefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei chyhoeddi'n electronig. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei wefan wedi'i strwythuro'n glir ac nad yw'n cael ei chuddio gan wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyngor arall. |

## Gweithredu gan y Cyngor

18 Yn ei ymateb ysgrifenedig i grynodeb o'm canfyddiadau dros dro, rhoddodd y Cyngor wybod i mi am y camau canlynol y mae eisoes wedi'u cymryd mewn ymateb i'r golled a ysgwyddwyd ganddo:

- dywed y Cyngor ei fod wedi adolygu'r holl daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn i nodi pa un a wnaed unrhyw daliadau o werth mawr eraill heb awdurdodiad ai peidio a daeth i'r casgliad na wnaed unrhyw daliadau eraill o'r fath. Mae wedi adolygu ei reolau sefydlog a'i reoliadau ariannol a'i drefniadau ar gyfer gwneud taliadau i sicrhau bod proses awdurdodi dau gam ar gyfer pob taliad electronig.
- mae cofnodion y cyfarfodydd yn destun gwaith craffu yn y cyfarfod dilynol ac mae'r Cyngor bellach yn cynnwys eitem agenda sefydlog, 'Materion yn codi o'r cofnodion', i'w trafod ym mhob cyfarfod.

- Sefydlodd y Cyngor bwyllgor 'Ffordd ymlaen' ym mis Medi 2023 i drafod anghenion y Cyngor. Mae'r pwyllgor hwn wedi nodi'r angen i greu gwefan newydd ac i aelodau ddefnyddio cyfeiriadau e-bost y Cyngor yn hytrach na chyfeiriadau e-bost personol. Mae'r Cyngor wedi gofyn am gyngor ar y rhain a materion seiberddiogelwch ehangach gan gwmni TG lleol.

19 Nid wyf wedi gwneud unrhyw waith archwilio ychwanegol i wirio'r camau a gymerwyd gan y Cyngor. Fodd bynnag, byddaf yn mynd ar drywydd cynnydd o ran y materion hyn mewn archwiliadau yn y dyfodol.

## Y camau nesaf

20 Rhaid i'r Cyngor nawr gymryd y camau canlynol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni ellir dirprwyo'r camau hyn i un o bwyllgorau'r Cyngor.

21 Rhaid i'r Cyngor, o dan adran 27 o'r Ddeddf, gyhoeddi hysbysiad ar unwaith mewn un neu fwy o bapurau newydd sy'n cylchredeg o fewn yr ardal a darparu copi o'r adroddiad i bob aelod o'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r hysbysiad:

- nodi pwnc yr adroddiad;
- datgan y gall unrhyw aelod o'r cyhoedd archwilio a gwneud copi o'r adroddiad rhwng yr adegau ac mewn mannau a nodir yn yr hysbysiad.

22 O dan adrannau 24 a 25 o'r Ddeddf, rhaid i'r Cyngor wedyn ystyried yr adroddiad mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad. Pe byddai'r Cyngor angen mwy o amser i gydymffurfio â'i ddyletswyddau mewn cysylltiad â'r adroddiad a'r argymhellion, dylai gysylltu â mi cyn gynted â phosibl.

23 O leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned sy'n nodi:

- amser a lleoliad y cyfarfod;
- bod y cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried adroddiad er budd y cyhoedd; a
- disgrifiad o bwnc yr adroddiad.

24 Gall y Cyngor gyfuno'r ddau hysbysiad sy'n ofynnol o dan adrannau 25 a 27 o'r Ddeddf.

25 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad i'w derbyn;
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

26 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor fy hysbysu ynghylch y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod. Yna bydd angen i'r Cyngor baratoi crynodeb ysgrifenedig o'r penderfyniadau hynny er mwyn i mi gymeradwyo'r crynodeb hwnnw cyn cyhoeddi hysbysiad sy'n ei gynnwys mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Adroddiad manwl

## Arweiniodd methiant i ddilyn y broses briodol a herio'n briodol gais am daliad at golled o £9,000 i'r Cyngor.

### Ar 12 Rhagfyr 2022, adroddodd y Clerc i'r Is-gadeirydd, am dderbyniad o £4,800 gan glwb beicio Harlech Ardudwy (Clwb Beico)

27 Mae'r cofnodion ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Mai 2022 yn cofnodi bod y Cynghorydd Braithwaite wedi cael gwybod gan glwb beicio Harlech Ardudwy (Clwb Beico) bod Clwb Beico wedi derbyn £4,609 a bod angen gwario'r grant neu y byddai angen ei ddychwelyd. Cynigiodd y grŵp beicio i roi'r arian i'r Cyngor ar yr amod bod y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am ganfod offer sy'n gysylltiedig â beiciau a'i osod mewn lleoliad y cytunwyd arno. Cytunodd y Cyngor i'r cynnig hwn.

28 Derbyniodd y Cyngor £4,800 gan y Clwb Beico ar 12 Rhagfyr 2022. Yna anfonodd y Clerc e-bost at yr Is-gadeirydd i'w hysbysu bod yr arian wedi ei dderbyn. Cyfeiriwyd yr e-bost hwn at gyfrif e-bost personol yr Is-gadeirydd, Christopher.braithwaite@hotmail.co.uk.

### Ar 13 Rhagfyr 2022, gwnaeth y Clerc ddau daliad o £4,500 yn dilyn gohebiaeth e-bost rhyngddi ag unigolyn a oedd yn honni mai ef oedd yr Is-gadeirydd

29 Am 10:39 ar 13 Rhagfyr, derbyniodd y Clerc e-bost oddi wrth unigolyn a oedd yn honni mai ef oedd yr Is-gadeirydd. Anfonwyd yr e-bost hwn gan Christopher.braithwait@hotmail.com (nodwch yr amrywiadau yn y sillafu).

30 Mae'r e-bost hwn yn gofyn 'os gwelwch yn dda mae gennyf anfoneb ar gyfer taliad o £4,500. Allwch chi drefnu'r taliad heddiw? (taliad yr un diwrnod). Mae'r taliad ar gyfer gwasanaeth ymgynghori Strategol ond gofynnais am anfoneb er mwyn hwyluso'r trosglwyddiad. Gadewch imi wybod a allwch brosesu'r taliad fel blaenoriaeth frys heddiw er mwyn i mi anfon yr anfoneb atoch i'w dalu. Mae angen i'r cwmni ddechrau gweithio ddydd Iau.'

31 Gwnaeth y Clerc y taliad y gofynnwyd amdano ac anfonodd gadarnhad e-bost o hyn am 12:17. Am 13:43, derbyniodd y Clerc e-bost arall yn dweud 'Rwy'n credu fy mod wedi gwneud camgymeriad, mae'r anfoneb ar gyfer 2 nid 1, a wnewch chi fod mor garedig â thalu'r ail un hefyd cyn gynted â phosibl, at ddibenion cofnodi, cofnodwch ef fel Cwmni Strategol (gan Chris).'

32 Am 16:05, anfonodd y Clerc e-bost yn dweud 'Byddaf yn ei dalu nawr.' Am 16:08 derbyniodd y Clerc e-bost arall yn dweud 'A yw wedi cael ei dalu os gwelwch yn dda? Rwyf newydd gael galwad oddi wrthynt.'

33 Am 17:28, cadarnhaodd y Clerc drwy e-bost fod yr ail daliad o £4,500 wedi'i wneud.

34 Ar gais, darparodd y Clerc gopi o'r trywydd e-bost rhwng y Clerc a'r unigolyn a oedd yn honni mai ef oedd yr Is-gadeirydd.

35 Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu copi llawn o'r trywydd e-bost i'm harchwilwyr, ac yn lle hynny dim ond copïau negeseuon e-bost printiedig wedi'u sganio. Mewn rhai achosion, mae'r copïau o dudalennau printiedig sydd wedi'u plygu neu a oedd â thaflenni gwag wedi'u gosod dros ran o'r testun llawn, a thrwy hynny yn cuddio rhan o'r dudalen. Mewn achosion eraill, mae fformat y negeseuon e-bost a gyflwynwyd adeg yr archwiliad yn awgrymu bod y ddogfen a argraffwyd wedi'i golygu cyn argraffu.

36 Nid yw'r negeseuon e-bost eu hunain yn cynnwys cadwyn e-bost lawn. Felly, nid yw wedi bod yn bosibl penderfynu gyda sicrwydd llwyr pryd y derbyniodd y Clerc rywfaint o'r wybodaeth.

## Wrth wneud y taliadau hyn, methodd y Clerc â glynu wrth brosesau rheoli mewnol priodol y Cyngor a gweithredu lefel briodol o herio a chraffu ar y cais am daliad

37 Fodd bynnag, mae'n glir o'r ohebiaeth e-bost a archwiliais, nad oedd y Clerc yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau ymgynghori yn cael eu darparu i'r Cyngor. O dan amgylchiadau o'r fath, byddwn yn disgwyl i'r Clerc arfer cryn dipyn o waith craffu a herio ynghylch cais o'r fath am daliad i sicrhau bod y cais yn ddilys ac wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.

38 Yn fy marn i, methodd y Clerc yn y meysydd allweddol canlynol.

### Derbyniodd y Clerc gyfarwyddyd i dalu am wasanaethau a oedd yn ôl pob golwg wedi cael eu comisiynu gan aelod unigol ac roedd yn gwybod nad oedd y Cyngor wedi'i gymeradwyo.

39 Nid oes gan aelodau unigol y cyngor unrhyw awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Mae'r Cyngor yn gwneud pob penderfyniad oni bai bod y Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i bwyllgor neu i un o swyddogion y Cyngor. Ni ellir dirprwyo penderfyniadau i aelodau unigol.

40 Mae'n amlwg, cyn belled ag yr oedd y Clerc yn ymwybodol ar y pryd, nad oedd y Cyngor wedi cymeradwyo gwariant ar gyfer gwasanaethau ymgynghori ac nad oedd hi ei hun yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau a oedd wedi eu comisiynu. Amlygir hyn gan y materion canlynol:

- yn dilyn y taliad cyntaf o £4,500, anfonodd y Clerc e-bost yn gofyn ‘Ar gyfer y cofnodion pa waith fydd y cwmni hwn yn ei wneud?’

- yn ei e-bost a anfonwyd am 16:05, gofynnodd: ‘Pa waith yn union sy'n mynd i gael ei wneud gan fod £9k yn swm eithaf mawr i'w dalu heb awdurdodiad y Cyngor Cymuned?’

## Byddai'r Clerc hefyd wedi bod yn ymwybodol nad oedd y 'gwasanaethau ymgynghori' hyn wedi'u caffael yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

41 Mae'r Cyngor wedi sefydlu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol sy'n nodi sut y dylai reoli ei gyllid a chaffael nwyddau a gwasanaethau.

42 Mae'r rheolau sefydlog yn nodi:

- *Gwariant: Rhaid i orchmynion talu gael eu hawdurdodi drwy benderfyniad y Cyngor a'u llofnodi gan ddau Gynghorydd a'r Clerc, ond mewn achosion o argyfwng gwirioneddol, gall y Clerc mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd ddod i benderfyniad arnynt*

43 Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn nodi:

- *Rheoli cyllideb: Ni chaniateir gwariant o unrhyw arian a fydd yn fwy na'r swm a gynhwysir yn y gyllideb refeniw ar gyfer y dosbarth gwariant hwnnw.*
- *Talu cyfrifon: Bydd yr holl anfonebau a delir yn cael eu harchwilio, eu gwirio a'u cadarnhau gan y Clerc. Bydd y Clerc yn bodloni ei hun fod y gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r anfoneb yn cyfeirio atynt wedi eu derbyn, eu cyflawni, eu harchwilio a'u cadarnhau.*
- *Contractau: Y gweithdrefnau ar gyfer contractau yw: Bydd pob contract yn cydymffurfio â'r Rheolau Ariannol hyn, ac ni wneir unrhyw eithriadau ac eithrio mewn argyfwng ar yr amod nad yw'r rheolau hyn yn berthnasol i gontractau sy'n ymwneud â’r eitemau isod:*
  - ar gyfer gwasanaethau arbenigol o'r math a ddarperir gan gyfreithwyr, cyfrifwyr, syrfewyr ac ymgynghorwyr cynllunio;
  - ar gyfer gwaith a wneir neu ddeunyddiau a gyflenwir sy'n cynnwys atgyweiriadau neu rannau ar gyfer peiriannau neu offer;
  - ar gyfer gwaith a wneir neu ddeunyddiau a gyflenwir sy'n ffurfio estyniad o gontract a wnaed eisoes gan y Cyngor;
  - ar gyfer nwyddau neu ddeunyddiau y bwriedir eu prynu sy'n nwyddau priodoldeb a / neu sy'n cael eu gwerthu am bris rhandaliad yn unig.

  *Pan fwriedir i gontract dros £5000 gael ei wneud ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer cyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol, bydd y Clerc yn gwahodd tendrau gan o leiaf dri Chontractwr.*

44 Nid yw'r gwasanaethau a ddisgrifir fel ‘Ymgynghori strategol’ yn bodloni'r eithriad a ganiateir yn y Rheoliadau Ariannol. Felly, dylai'r Clerc fod wedi sicrhau bod prosesau caffael ac awdurdodi priodol y Cyngor yn cael eu dilyn.

### Ni wnaeth y Clerc graffu’n effeithiol ar y cais anarferol ac annisgwyl am daliad

45 O ystyried y materion y cyfeirir atynt uchod, mae camau y gallai'r Clerc fod wedi'u cymryd a dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau bod y cais am daliad yn gyfreithlon.

46 Er enghraifft, ni sylwodd ar y ffaith nad oedd y negeseuon e-bost a dderbyniodd yn ymwneud â'r cais hwn am daliad, wedi dod o gyfrif e-bost yr Is-gadeirydd. Er bod y gwahaniaethau'n gynnil, gyda gofal a sylw dyladwy, gellir eu hadnabod yn weddol hawdd.

47 Roedd y negeseuon e-bost oddi wrth Christopher.braithwait@hotmail.com (cyfenw wedi’i sillafu'n anghywir) yn cynnwys cyfarwyddiadau i wneud taliadau i unigolyn o'r enw Oluwafemi Oudnuga. Roedd y negeseuon e-bost yn cynnwys copïau o anfonebau i gefnogi'r taliadau. Fodd bynnag, maen nhw’n anfonebu Chris Braithwaite ac nid y Cyngor.

48 Hefyd, mae'r negeseuon e-bost wedi'u hysgrifennu'n wael gyda gwallau gramadegol a theipograffyddol. Mae'r gwallau hyn yn dangos nad oedd y negeseuon e-bost oddi wrth yr Is-gadeirydd. Dylai'r defnydd gwael o iaith fod wedi codi pryderon ynghylch y cyfarwyddiadau a roddwyd i'r Clerc.

49 Mae anghysondebau yn y llinell amser yn y gadwyn e-bost ei hun. Am 13:43 ar 13 Rhagfyr, derbyniodd y Clerc e-bost oddi wrth Christopher.braithwait@hotmail.com a oedd yn cynnwys e-bost oddi wrth oluwafemi.odunuga@consultant.com i Christopher.braithwait@hotmail.com gyda’r amser 14:40 ar 13 Rhagfyr. Mae hyn yn dangos bod negeseuon e-bost oddi wrth oluwafemi.odunuga@consultant.com wedi dod o barth amser gwahanol i'r DU.

50 Mae'r anfonebau eu hunain o ansawdd gwael. Rwy'n amgáu copïau o'r anfonebau yn **Atodiad 1**. Nid yw'r anfonebau'n rhoi digon o fanylion. Mae'r cyfeiriad a restrir ar yr anfoneb yn perthyn i gwmni gwahanol.

51 Er na chodwyd amheuon y Clerc ynghylch y cyfrif e-bost ac ansawdd y negeseuon e-bost a'r anfonebau, dylai natur annisgwyl a brys y cais a'r methiant i ddarparu gwybodaeth briodol fod wedi achosi pryder. Dylai'r ffeithiau hyn yn unig fod wedi ei hysgogi i siarad â'r Is-gadeirydd yn bersonol i gadarnhau natur y gwasanaethau ymgynghori. Pe bai hi wedi gwneud hynny, byddai'r twyll wedi cael ei ganfod cyn unrhyw daliad.

## Mae'r ffaith y llwyddodd Oluwafemi Oudnuga i berswadio'r Clerc mewn modd mor rhwydd i wneud dau daliad yn dangos, yn ymarferol, nad yw'r Cyngor yn gweithredu rheolaethau mewnol priodol dros wariant

52 Yn ogystal â'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol, mae'r Cyngor wedi darparu dogfen ar gyfer archwiliad sy’n nodi sut mae'n rheoli ei system ar gyfer gwneud taliadau. Mae'r ddogfen hon yn nodi bod taliadau yn cael eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cyngor cyn i sieciau gael eu rhyddhau.

53 Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad yw taliadau yn cael eu gwneud trwy siec yn unig, ond hefyd trwy drosglwyddiad banc. Mae cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cofnodi anfonebau a dderbyniwyd ers y cyfarfod blaenorol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd a yw'r taliadau hyn wedi'u gwneud trwy drosglwyddiad banc ai peidio cyn y cyfarfod.

54 Ni wnaeth y Cyngor ddilyn ei reolau cyfredol ar gyfer gwneud taliadau ac felly mae'n hanfodol bod y Cyngor yn bodloni ei hun bod ei reolau yn cael eu dilyn ar gyfer pob taliad. Yn yr achos hwn, gwnaed taliad er gwaethaf bodolaeth nifer o arwyddion rhybudd. Mae hyn yn awgrymu y gallai taliadau eraill fod wedi'u gwneud heb waith craffu'r Cyngor. Felly, mae'n bwysig bod y Cyngor bellach yn adolygu'r holl daliadau a wnaed i sicrhau bod ei weithdrefnau wedi'u dilyn.

# Mae cofnodion y Cyngor yn cyflwyno darlun anghywir o ddigwyddiadau yn ymwneud â cholli £9,000

## Mae cofnodion cywir yn hanfodol gan eu bod yn cynrychioli cofnod hanesyddol yr holl fusnes a drafodir yng nghyfarfodydd y Cyngor

55 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion o'i gyfarfodydd gan gynnwys cofnodion unrhyw bwyllgorau. Y cofnodion yw'r cofnod ffurfiol o weithredoedd a phenderfyniadau swyddogol. Felly, dylent fod yn glir ac yn gywir.

56 Yn dilyn pob cyfarfod, mae'r Clerc yn paratoi'r cofnodion. Yna caiff y rhain eu dosbarthu i'r aelodau ynghyd â'r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Yna mae'r Cyngor yn adolygu'r cofnodion ac yn eu cymeradwyo fel cofnod cywir yn y cyfarfod nesaf.

## Mae cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a 5 Ionawr 2023, yn cyflwyno darlun anghywir o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r taliadau ac ymddengys eu bod wedi'u paratoi i awgrymu bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r taliad o £9,000 ar 5 Rhagfyr 2022.

57 Mae cofnodion cyfarfod 5 Rhagfyr 2022 yn cofnodi'r canlynol:

‘Anfonebau sydd angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf...

Oluwafeni Odunuga £9,000.00 – Gwasanaeth ymgynghori strategol'[1]

58 Cymeradwywyd y cofnodion hyn fel cofnod cywir yng nghyfarfod y Cyngor ar 9 Ionawr 2023. Mae'r cofnodion gwreiddiol yn cael eu llofnodi gan gadeirydd y Cyngor.

59 Fodd bynnag, ni all 5 Rhagfyr 2022 fod yn gofnod cywir o'r busnes a drafodwyd. Ni dderbyniwyd yr anfonebau tan 13 Rhagfyr 2022. Felly, nid oedd yn bosib adrodd amdanynt nac eu trafod yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr fel pe baent wedi dod i law cyn y cyfarfod hwnnw.

60 Yn dilyn hynny, mae cofnodion cyfarfod 9 Ionawr 2023 yn cofnodi:

> 'Dywedodd y Trysorydd, yn anffodus, fod y Cyngor wedi cael ei dwyllo gan berson o'r enw Oluwafeni Odunuga a oedd yn datgan ei fod yn mynd i wneud gwaith ymgynghorol i'r Cyngor a byddai angen taliad ymlaen llaw a chollwyd £9,000. Dywedodd y Trysorydd ymhellach ei bod wedi ffonio adran dwyll y banc ac mae'r adran honno yn ymdrin â'r mater ar hyn o bryd. Adroddodd y Trysorydd ymhellach ei bod wedi derbyn llythyr oddi wrth fanc HSBC yn nodi ei bod yn ymddangos bod y Cyngor wedi dioddef sgam 'taliad gwthio awdurdodedig' a'u bod bellach yn ymchwilio i hyn ac yn cysylltu â banc y twyllwr. Bydd banc HSBC yn cysylltu â'r Trysorydd o fewn y 15 diwrnod gwaith nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.'

61 Nid yw cofnodion 9 Ionawr yn nodi'r amgylchiadau a arweiniodd at y golled.

# Nid yw gwefan y Cyngor yn cael ei chynnal yn briodol ac mae'n cuddio gwybodaeth berthnasol

## Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig

62 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol sicrhau bod eu manylion cyswllt ac aelodaeth a chofnodion o'u trafodion ar gael drwy gyfrwng y rhyngrwyd. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig.

## Er bod gan y Cyngor wefan, nid yw'n cael ei chynnal yn rheolaidd

63 Yn ystod yr archwiliad daeth yn amlwg nad yw gwefan y Cyngor yn cael ei chynnal yn rheolaidd.

[1] Cyngor Cymuned Harlech (cyngorharlech.co.uk)

64 Mae cofnodion ac agendâu yn cael eu postio allan o drefn ac maent yn destun cryn dipyn o ddyblygu. Er enghraifft, mae'r cofnodion ar gyfer 2022-23 yn cael eu cyhoeddi yn y drefn ganlynol o frig y dudalen:

- Cofnodion 06 Mawrth 2023 (Saesneg)
- Cofnodion 06 Mawrth 2023 (Cymraeg)
- Cofnodion 05 Rhagfyr 2022 (Saesneg)
- Cofnodion 06 Mawrth 2023 (Saesneg)
- Cofnodion 06 Mawrth 2023 (Cymraeg)
- Cofnodion 05 Rhagfyr 2022 (Saesneg)
- Cofnodion 06 Mawrth 2023 (Saesneg)
- Cofnodion 06 Mawrth 2023 (Saesneg)
- Cofnodion 09 Ionawr 2023 (Saesneg)
- Cofnodion 06 Mawrth 2023 (Cymraeg)
- Cofnodion 06 Chwefror 2023 (Cymraeg)
- Cofnodion 07 Tachwedd 2022 (Saesneg)
- Cofnodion 09 Ionawr 2023 (Cymraeg)
- Cofnodion 05 Rhagfyr 2022 (Cymraeg)
- Cofnodion 07 Tachwedd 2022 (Cymraeg)
- Cofnodion 03 Hydref 2022 (Cymraeg)
- Cofnodion 05 Medi 2022 (Cymraeg)
- Cofnodion 06 Mehefin 2022 (Cymraeg)
- Cofnodion 04 Gorffennaf 2022 (Saesneg)

65 Mewnosodir agendâu'r holl gyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2022-23 rhwng y cofnodion ar gyfer 05 Rhagfyr 2022 a 06 Mawrth 2023.

## Mae'r wefan wedi'i strwythuro'n wael ac mae'n anodd dod o hyd i ddogfennau unigol

66 Yn ogystal â phostio cofnodion ac agendâu yn afreolaidd fel y nodwyd uchod, nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi'r holl wybodaeth y mae'n ofynnol iddo gyhoeddi'n electronig. Er enghraifft, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r eitemau canlynol ond nid yw'n gwneud hynny:

- Cyfrifon blynyddol a barn ac adroddiadau archwilio
- Cofrestr o fuddiannau'r aelodau
- Hysbysiadau cyhoeddus e.e. cwblhau archwiliad

67 Ar ben hynny, mae gwefan y Cyngor yn cynnal dogfennau sy'n ymwneud â Chyngor Cymuned Llanfair. Mae cofnodion ac agendâu Cyngor Cymuned Llanfair wedi'u cydblethu â chofnodion Cyngor Cymuned Harlech. Mae postio cofnodion yn

afreolaidd ac ati a defnyddio gwefan Harlech i gynnal agendâu a chofnodion Llanfair yn tueddu i guddio gwybodaeth sy'n gysylltiedig â Harlech.

# Atodiad 1

## Anfonebau twyllodrus

Oluwafemi Odunuga
EST. 2012
Strategic Consultancy Service

Unit 25 Shortwood Court, Dearne Valley Parkway, Barnsley, S Yorkshire, S74 9LH
TEL: 01579 386180

**INVOICE**

| INVOICE TO: | | |
|---|---|---|
| Christopher Braithwaite | Invoice Number | 0019104 |
| | Invoice Date | 12/13/2022 |
| | Contact Person | Christopher Braithwaite |
| | Payment Remarks | 3 days |

| | Description | Quantity | Price per Unit | Amount GBP |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Strategic consultancy Service | 1 | £ 4500 | £ 4500 |
| | **Bank Transfer-**<br>**Beneficiary:** *Oluwafemi Odunuga*<br>**Sc:** *04-00-85*<br>**Ac:** *02322676* | | | |
| | | | SUBTOTAL | £ 4,500.00 |
| | | | Sales Vat | --- |
| | | | TOTAL DUE | £ 4,500.00 |

Oluwafemi Odunuga

EST. 2012

Strategic Consultancy Service

Unit 25 Shortwood Court, Dearne Valley Parkway, Barnsley, S Yorkshire, S74 9LH

TEL: 01579 386180

## INVOICE

| INVOICE TO: | | |
|---|---|---|
| Christopher Braithwaite | Invoice Number | 0019105 |
| | Invoice Date | 12/13/2022 |
| | Contact Person | Christopher Braithwaite |
| | Payment Remarks | 3 days |
| | | |

| | Description | Quantity | Price per Unit | Amount GBP |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Strategic consultancy Service | 1 | £ 4500 | £ 4500 |
| | **Bank Transfer-**<br><br>**Beneficiary:** ***Oluwafemi Odunuga***<br>**Sc:** ***04-00-85***<br>**Ac:*****02322676*** | | | |
| | | | SUBTOTAL | **£ 4,500.00** |
| | | | **Sales Vat** | --- |
| | | | **TOTAL DUE** | **£ 4,500.00** |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.